**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe ac arlein trwy gyfrwng Zoom ar ddydd Mercher, Ionawr 31ain, 2024 am 8.20 yh.**

| **Presennol** | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs. K. D. L. Davies | S. Roberts | Mrs A. J. Evans |
| | D. Thomas | E.W. Nicholas | P. H. Roberts |
| | R. Barnes | Mrs C. R. Thomas | D. Hopkins |
| **Ymddiheuriadau** | S. E. Thomas Gollyngiad | | |

**CEISIADAU AM GANIATÂD CYNLLUNIO A DDERBYNIWYD ODDIWRTH YR AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL, I'W HYSTYRIED YNG NGHYFARFOD CYNLLUNIO Y CYNGOR, A GYNHALIWYD AR Ionawr 31ain, 2023 GAN WEITHREDU GYDAG AWDURDOD LLAWN**

**380.**

- **Cais Cynllunio: PL/07082** – Adeilad sengl ar gyfer storio, atgyweirio a gwasanaethu – Cyn Lofa Cwmgwili, Cwmgwili, Llanelli, SA14 6PP

Tra'n cytuno'n gyfangwbl gyda chefnogi busnes a swyddi, gofynnwn bod y Swyddogion Cynllunio'n nodi'r gwrthwynebiadau canlynol a dderbyniwyd oddiwrth breswylydd lleol:

*"Mae Paragraff 9.1 yn datgan: "Nid oes unrhyw eiddo preswyl yng nghyffiniau'r safle y ceisir amdano..." Mae hyn yn anghywir (ac roedd hefyd yn anghywir adeg cais blaenorol Davies Coaches, rhif E/39150). Mae fy nghartref ger y lôn fynediad sy'n caniatáu i'r ymgeisydd gael mynediad at, a gadael, y safle."*

*"Mae Paragraff 9.1 yn datgan: "Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y cysylltiad ffordd presennol at y briffordd gyfagos". Unwaith eto, mae hyn ond yn wir os bydd maint y fflyd a'r nifer o symundiadau cerbyd yn cael eu cadw at y lefelau presennoll."*

*"Mae'r lôn fynediad sy'n gwasanaethu'r safle wedi'i adael i fynd i gyflwr gwael oherwydd diffyg cynnal a chadw. Yn benodol, mae tyllau mawr wedi datblygu yn wyneb y lôn, ac mae'r rhain yn gwasgaru graen a llanw â dŵr brwnt. Gweler y delweddau 103410, 103415 a 103423."*

- **Cais Cynllunio: PL/07056 –** Diwygiad Ansylweddol i PL/02848 (Cynlluniau diwygiedig) Tir i'r de o Erw'r Brenhinoedd, Llandybïe, Rhydaman, SA18 2TQ

**Sylwadau;** DIM SYLWADAU

- **Cais Cynllunio: PL/07063 -** 8 uned storio diwydiannol (Dosbarth B8) Cyn Lofa Lindsay, Heol Coopers, Rhydaman, SA18 3SL

**Sylwadau;** DIM SYLWADAU

- **Cais Cynllunio:  PL/07079** – Newidiadau ac Estyniad - 6 Teras Caer Bryn, Caerbryn, Rhydaman, SA18 3DX

**Sylwadau;** DIM SYLWADAU

- **Cais Cynllunio:  - PL/07153** – Estyniad un llawr i'r portsh cefn - 14 Heol Parcdir, Rhydaman, SA18 3TF

**Sylwadau;** DIM SYLWADAU

- **Cais Cynllunio:  PL/06099 –** Newid defnydd o Ddosbarth C3 i adeiladu 7 fflat preswyl newydd, Capel Heol Norton, Penygroes, Llanelli

**Sylwadau;** Roedd y Cynghowrwyr wedi nodi nad oedd unrhyw gyfleusterau parcio yn gysylltiedig â'r datblygiad hwn, ac mae pryderon ynghlyn â'r effaith y byddai hyn yn cael ar y priffyrdd, gyda pharcio yn cael ei wthio i ardaloedd eraill o gwmpas y pentref.

**Cais Cynllunio:  PL/07177** – Cynllun Arfaethedig i adeiladu Adeilad Da-byw ar gyfer Defnydd Cymysg Amaethyddol a Chefylaidd gyda Llaeiniau Caled a Thirlunio Ategol [Ail-gyflwyniad o PL/05674 a Wrthodwyd ar 18/07/2023] – Tir yn Mellions, Heol Ddu, Rhydaman, SA18 2UG.

**Sylwadau;** Roedd y pwyllgor yn cytuno â sylwadau'r Cynghorydd Sir Caerfyrddin, y Cynghorydd Anthony Davies, ac yn poeni ynghylch y priffyrdd, a mynediad at y fath ddatblygiad yn y lleoliad hwn.

**381.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.42yh.